

Croeso

Croeso i ymgynghoriad statudol Nadara ar y cynigion ar gyfer Fferm Solar Glyn Taf 2km i'r dwyrain o Bontypridd.

Bydd adborth a dderbynnir yn ystod yr ymgynghoriad hwn yn cael ei adolygu a'i ddefnyddio i lywio'r cynigion terfynol, a fydd yn cael cyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) yng Ngwanwyn 2025.

Am Nadara

Efallai eich bod wedi sylwi... mae gennym ni enw newydd!

Renantis UK Ltd., a ailfrandiwyd yn ddiweddar fel Nadara yn dilyn y cyfuniad â Ventient Energy, gan ddod â 30 mlynedd o brofiad diwydiant cyfunol ynghyd i ddod yn un o IPPau ynni adnewyddadwy mwyaf Ewrop.

Mae gan Nadara bortffolio o tua 200 o weithfeydd gwynt ar y tir, solar, biomas, ac ynni, gan gynnwys naw fferm wynt gyda chapasiti gosodedig o 163MW yng Nghymru. I gael rhagor o wybodaeth am Nadara ewch i nadara.com neu LinkedIn.

Nàdarra
-
Gaeleg yr
Alban

Nadara
-
Saesneg

Senghenydd

Pontypridd

Trefforest

Rhydyfelin



Y cynnig

Mae'r cynnig ar gyfer y fferm solar 39.9 Megawat brig (MWp) yn cynnwys adeiladu fferm solar ffotofoltäig ar y ddaear, traciau mynediad cysylltiedig, ceblau tanddaearol, ffensys perimedr â chamrau teledu cylch cyfyng a gathau mynediad, caedleoedd adeiladu dros dro a'r holl seilwaith grid ategol a gwaith tirlunio cysylltiedig.

Bydd y paneli solar yn rhesi gogwyddo sefydlog, deuwyneb, wedi'u gosod ar y ddaear. Ni fyddant yn fwy na 3m o uchder a byddant yn cael eu gosod ar ffrâm sy'n cael ei drilio i'r ddaear i ddyfnder o 1-2 metr ar y mwyaf a fydd yn achosi cyn lleied o aflonyddwch â'r ddaear ac yn lleihau'r effeithiau posibl ar archaeoleg is-wyneb anhysbys.


Bydd gan y paneli arwyneb anadlewyrchol, a fydd yn cynyddu cyfran yr ymbelydredd solar a amsugnir, gan ddileu'r risg o adlewyrchiad a llacharedd digroeso.

Mae'r dyluniad yn cynnwys darparu ffensys ceirw diogel sy'n rhedeg o amgylch perimedr y Fferm Solar Arfaethedig ac wedi'u gosod yn ôl 5m oddi wrth ffiniau presennol y caeau. Bydd y ffens yn 2m o uchder â bwlch o 0.1m ar y gwaelod a fydd yn caniatáu mynediad i famaliaid llai.

Bydd yr holl geblau ar y safle yn cael eu lleoli o dan y ddaear.

Ffeithiau allweddol

-  **39.9 MWp (amcangyfrif o 33.25 MWac)**
-  **Tua 12,000 o gartrefi yn cael eu pweru bob blwyddyn (cyfwerth)**
-  **Arbedir tua 18,000 tonnell o allyriadau carbon**
-  **Cronfa budd cymunedol o £581,000 dros oes y prosiect**



Fferm Solar Glyn Taf

nadara

Cynllun safle

Eglurhad

- Ffin Datblygu
- Arae PV Solar
- Ffensio
- Trawsnewidydd
- Ardal Adeiladu Dros Dro



glyntaffsolar.co.uk



Diweddariadau ar y cynnig

Rydym yn ddiolchgar am yr holl adborth a dderbyniwyd yn ystod ein hymgyngoriad anffurfiol yn ystod haf 2024. Mae'r adborth hwn wedi chwarae rhan hanfodol wrth lunio esblygiad y prosiect.

Yn seiliedig ar yr adborth hwnnw, mae ymchwiliadau safle ac arolygon ychwanegol wedi cael eu cynnal, ac rydym wedi gwneud newidiadau i'r prosiect, fel a ganlyn:

-  Wedi lleihau arwynebedd cyffredinol y safle yn sylweddol o 101 hectar i 71 hectar.
-  Wedi cael gwared â lleiniau tir penodol lle nodwyd cyfyngiadau megis bioamrywiaeth, perygl llifogydd, neu sensitifrwydd tirwedd.
-  Wedi mireinio safle seilwaith i leihau effeithiau gweledol ac amgylcheddol posibl.
-  Gwelliannau tirwedd ac ecolegol ychwanegol arfaethedig i integreiddio'r datblygiad yn fwy effeithiol o fewn yr amgylchoedd.

Mae'r newidiadau dylunio hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddarparu cynllun ynni adnewyddadwy cynaliadwy a chytbwys sy'n gwneud y mwyaf o gynhyrchu ynni glân tra'n parchu cyd-destun amgylcheddol a chymunedol y safle.




Cysylltiad Grid

Mae'r safle mewn lleoliad delfrydol ar gyfer mynediad i'r rhwydwaith grid trydan lleol, sef oddeutu 4.8km o'r is-orsaf agosaf yng Nglan-bad, Trefforest.

Bydd y trydan a gynhyrchir yn dod i rwydwaith trosglwyddo'r Grid Cenedlaethol ac yn cael ei gludo ar draws Cymru.

Llwybrau Cysylltiad Dangosol

- Opsiwn 1
- 1A
- Opsiwn 2
- 2B
- Opsiwn 3
- IS-ORSAF GRID
- ARDAL DDYLUNIO



A map of South Wales, United Kingdom, showing major towns and cities. A red rectangular box highlights the study area, which is located in the central part of the region, between Cardiff and Newport. The map includes labels for towns such as Ebbw Vale, Merthyr Tydfil, Aberdare, Treorchy, Pontypridd, Caerphilly, Newport, Cardiff, Penarth, Barry, Cowbridge, and Pontycymer. The Severn River is visible flowing through the study area.



Ystyriaethau amgylcheddol



Mynediad, traffig a thrafnidiaeth

Y prif bwynt mynediad i'r safle sy'n cael ei ystyried yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu ar hyn o bryd yw trwy Fferm Bryntail trwy Lôn Bryntail.

Cynllun llwybrau mynediad

Rydym wedi ymrwymo i reoli traffig yn ofalus a lleihau aflonyddwch yn ystod cyfnodau adeiladu a gweithredu'r fferm solar.

Cyfnod Adeiladu

Yn ystod y gwaith adeiladu, bydd traffig yn cael ei reoli drwy:



Llwybrau Mynediad Cytûn

Gweithio gydag awdurdodau lleol i osgoi ardaloedd sensitif a lleihau'r effaith ar ffyrdd lleol.



Oriau rheoledig

Dim traffig adeiladu yn ystod oriau cymudo brig na'r cyfnod gollwng/casglu o'r ysgol.




Mesurau Arafu Traffig

Gan gynnwys manau pasio lle bo angen er mwyn sicrhau symudiadau cerbydau diogel ar ffyrdd gwledig cul.

Cyfnod Gweithredol

Unwaith y bydd yn weithredol, bydd y fferm solar yn cynhyrchu ychydig iawn o draffig gyda dim ond rhwng 15 ac 20 symudiad cerbyd y flwyddyn ar gyfer ymweliadau cynnal a chadw.



Eglurhad

- Ffin Datblygu
- Llwybr cludiant arfaethedig
- Dadansoddiad o'r llwybrau
- Maint Arolwg Cyflwr



Ystyriaethau amgylcheddol



Etifeddiaeth ac Archaeoleg

Mae'r safle wedi cael ei arolygu'n helaeth gan dîm y prosiect ac mae arolwg geoffisegol wedi cael ei gynnal i asesu unrhyw nodweddion archeolegol posibl o fewn y safle.

Mae Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth Ddiwylliannol (CHIA) wedi cael ei gynnal i werthuso ac asesu effeithiau posibl y fferm solar ar asedau treftadaeth hysbys a heb eu darganfod.

Mae canfyddiadau'r asesiad wedi helpu i arwain mesurau lliniaru, megis dylunio safle sensitif a sgrinio, i sicrhau bod y fferm solar yn integreiddio'n barchus â chymeriad hanesyddol yr ardal tra'n cefnogi'r newid i ynni adnewyddadwy.


Yn ystod y gwaith adeiladu, byddwn yn gweithio'n agos ag arbenigwyr treftadaeth ac awdurdodau lleol yn penodi i fonitro gweithgareddau adeiladu'n agos a sicrhau, os yw'n annhebygol y bydd unrhyw asedau treftadaeth anhysbys yn cael eu darganfod, y caiff y rhain eu cofnodi a'u diogelu ar y safle yn ystod y gwaith adeiladu.



Sŵn

Mae paneli solar yn gweithredu'n dawel, gyda'r unig sŵn posibl yn dod o orsafoedd gwrthdröydd, sy'n hanfodol ar gyfer trosi trydan.

Mae gwrthdroyddion modern yn cynhyrchu lefelau sŵn isel yn ystod y dydd ac maen nhw'n segur yn y nos. Mae'r datblygiad arfaethedig wedi sicrhau bod y rhain wedi'u lleoli'n ofalus i sicrhau cyn lleied o aflonyddwch â phosibl i'r gymuned.




Ystyriaethau amgylcheddol



Ecoleg


Mae arolygon ecolegol amrywiol wedi cael eu cynnal gan gynnwys adar sy'n gaeafu ac sy'n magu, Madfallod Dŵr Cribog, ystlumod, moch daear, dyfrgwn, llygod dŵr, amffibiaid ac ymlusgiaid. Mae ein harolygon yn dangos na ragwelir unrhyw effeithiau arwyddocaol ar unrhyw rywogaethau na chynefinoedd ar y safle.

Bydd y prosiect yn sicrhau budd net i fioamrywiaeth yn ystod ei oes trwy greu cynefinoedd newydd sy'n cynnig bwyd a lloches i fywyd gwyllt, gan gynnwys rhywogaethau â blaenoriaeth ac adar sy'n bridio.



Hydroleg

Mae cyfres o astudiaethau wedi cael eu cynnal o'r safle er mwyn darparu dealltwriaeth fanwl o'r amgylchedd dŵr presennol a chyflwr y tir. Yn seiliedig ar yr astudiaethau hyn, mae'r Datblygiad Arfaethedig yn ymgorffori datrysiadau draenio cynaliadwy (SuDS), megis pantiau, basnau gwanhau, a chlustogfeydd â llystyfiant, er mwyn rheoli dŵr ffo wyneb yn effeithiol a lleihau'r perygl o lifogydd i lawr yr afon.



Buddion i'r Gymuned

Rydym yn cefnogi'r cymunedau lleol o amgylch ein prosiectau solar a'n nod yw creu effaith gadarnhaol ar gymdeithas a'r amgylchedd sy'n mynd y tu hwnt i gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Rydym yn croesawu eich syniadau ar sut y gallwn ni gyflawni ar gyfer y gymuned.

Cronfa Budd Cymunedol

Yn ein prosiectau rydym yn gwahodd y gymuned leol i'n helpu i lunio pecyn budd cymunedol sy'n bodloni anghenion a dymuniadau lleol orau.

Os bydd y prosiect hwn yn cael caniatâd, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid lleol i sefydlu cronfa gymunedol o hyd at £581,000 dros oes y prosiect.

Edrychwn ymlaen at glywed gan bobl leol drwy gydol y cyfnod ymgynghori am yr hyn yr hoffent ei weld.

Cyflenwyr Lleol

Mae'r perthnasoedd a feithrinwn â chyflenwyr lleol yn helpu ein prosiectau i ddod yn llwyddiannus ac yn darparu buddion economaidd gwerthfawr trwy fewnfuddsoddi. Os ydych yn gyflenwr lleol a bod gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y prosiect, cysylltwch â ni.



Amserlen y prosiect

2021 - 23

- Dewis safle
- Arolygon safle
- Asesiadau amgylcheddol
- Cytundeb perchenogion tir wedi'u llofnodi

Gwanwyn 2025

- Ymgynghoriad statudol ar gynigion manwl.

Haf 2026

- Gwaith adeiladu yn dechrau – disgwylir i hyn gymryd tua 12 mis

Gwanwyn 2024

- Ymgysylltu cynnar â rhanddeiliaid
- Astudiaethau dichonoldeb

Gwanwyn 2025

- Cyflwyno'r cais i PEDW
- Ymgynghoriad PEDW ar y Cais DNS

Hydref 2027


- Fferm solar yn dod yn weithredol

Haf 2024

- Ymgynghoriad anffurfiol

Gaeaf 2025

- Penderfyniad ar y Cais DNS



Adborth a'r camau nesaf

Rydym yn eich gwahodd i roi adborth ar ein cais cynllunio drafft Fferm Solar Glyn Taf.

Oherwydd maint yr ynni adnewyddadwy glân y bydd y prosiect yn ei gynhyrchu, caiff ei ddosbarthu'n Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS). Bellach rydyn ni wrthi'n ymgynghori ar y cynigion terfynol cyn eu cyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) i Weinidogion Cymru benderfynu arnyn nhw.

Caiff adborth a ddaw i law ei adolygu ac ymatebir iddo yn yr Adroddiad Ymgynghori a'i gyflwyno i PEDW yn rhan o'r cais cynllunio.

Dweud eich dweud

Mae eich adborth yn bwysig i helpu i lywio'r cais cynllunio terfynol ar gyfer Fferm Solar Glyn Taf.


Mae rhagor o wybodaeth gan gynnwys yr holl ddogfennau cynllunio ar gael i'w hadolygu ar y wefan: **glyntaffsolar.co.uk**

Gallwch roi eich adborth drwy lenwi'r **ffurflen adborth ar-lein**

Rhowch adborth i ni drwy lenwi eich ffurflen adborth ar y wefan. Os hoffech chi gael copi papur o'r ffurflen adborth, ffoniwch ni.

Gellir anfon copïau papur o'r ffurflen adborth i: **Freepost GRASSHOPPER CONSULT (nid oes angen stamp na chyfeiriad).**

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn dydd Llun, 21 Ebrill 2025



Cysylltwch â ni



glyntaffPV@grasshopper-comms.co.uk



014 43 584238

